# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 24 Ionawr 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Gwilym Owen

**Cyngor Gwynedd**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Susan Davies
Y Cynghorydd Pearl Evans

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –pawb yn bresennol.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1 Cynllun Datblygu Lleol** – y Cyng. Godfrey Northam yn cynnig bod angen ail-ystyried y cynllun oherwydd yr oedi gyda datblygu Wylfa B. Y Cyng. Paul Rowlinson (sydd ar y Panel) yn ymateb bod y Cynllun yn cael ei fonitro ac yn cael ei adolygu yn ystod yr haf beth bynnag. Gobeithio bydd y Cyng. Paul Rowlinson yn anfon sylwadau y Cyngor ymlaen i'r Panel yn eu cyfarfod nesaf, sy'n cael ei gynnal yfory.
**3.2 Tyllau yn y ffordd/'pot holes' –** nifer o dyllau yn y ffyrdd o amgylch yr ardal. Penderfynwyd bydd pawb yn anfon rhestr i'r Clerc, i'w anfon at Gyngor Gwynedd.
**3.3 Swyddfa Bost -** pawb gyda pryderon yn dilyn y newyddion bod yr hen siop Spar yn cau. Adroddwyd bod y Swyddfa Bost yn gofyn am ddatgan o ddiddordeb gan fusnesau lleol i ddarparu'r gwasanaeth.
**3.4 Y Cyng. Pearl Evans** – yn ei chael yn anodd i ddarllen Cymraeg, ac felly methu darllen cofnodion y cyfarfodydd. Penderfynwyd, yn unfrydol, bod y Cyngor yn hapus i dalu am gyfieithu'r cofnodion. Y Cyng. Paul Rowlinson am eu cyfieithu. Bydd hyn am gyfnod treial hyd at y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018, yn ddarostyngedig i Eitem 8. Y Cyng. Dyfrig Jones ddim wedi cynnig ei enw ar gyfer Bwrdd Rheoli

Partneriaeth Ogwen.  Yn hytrach wedi argymell bod angen mwy o bobl ar y Bwrdd, a phobl o tu allan gyda arbenigedd.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**- y cloc wedi cyrraedd, disgwyl i'r contractwr ddod i'w osod.
**5.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng yr Hen Iard Glo a groeslon Gerlan**-y wal heb gael sylw, y Clerc am ddod a'r mater i sylw Gyngor Gwynedd unwaith eto.  Cyngor Gwynedd yn trafod gyda'r tirfeddianwyr am y gordyfiant.
**5.3 Clwb Ieuenctid –** adroddwyd bod y ddau wasanaeth yn cyd-weithio/cyd-redeg.  Y Clwb ar agor nos Fawrth a nos Iau o dan gyfrifoldeb y ddau swyddog newydd,  ac ymweliadau yn ystod y nosweithiau gan y Swyddog newydd i'r Dyffryn gyfan.
**5.4 Caeau chwarae** – disgwyl ymateb os yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i'r Cyngor Cymuned fod yn gwneud y gwaith arfaethedig i'r caeau pêl-droed.  Wedyn bydd angen prisiau ar gyfer y toriadau ychwanegol a cael marcio'r caeau.
**5.5 Gwasanaeth Sul y Cofio** –  Y Clerc i drefnu cyfarfod yn y Gwanwyn.  Penodwyd y Cyngr. Griff Morris, Linda Brown a Susan Davies (wedi cadarnhau) i fynychu'r cyfarfod.
**5.6 Cyngerdd Gŵyl Dewi** – Dilwyn Llwyd yn fodlon trio trefnu digwyddiad yn Neuadd Ogwen ar gyfer dathlu Gŵyl Dewi.  Penderfynwyd na fydd y Cyngor yn trefnu cyngerdd eleni.
**5.7 PCSO Ashley** – adroddwyd bod Ashley wedi ei ail-leoli i Fangor.  PCSO Iwan Owen ar gael i fynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.  Penderfynwyd anfon llythyr at Heddlu Gogledd Cymru gyda pryderon mai ond un PCSO sydd yn yr ardal bellach.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth.  Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch am yr adroddiad cynhwysfawr.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
**Un Llais Cymru** – adroddwyd bod yna ddiffyg hyfforddiant Cymraeg, ers gyfnod.  Y Clerc i holi unwaith eto.  Y Cyng. Godfrey Northam yn dymuno mynychu'r hyfforddiant ym mis Mawrth- Modiwl 19 Datganoli Gwasanaethau / Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

**8. Archeb 2019-20**
Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £92,455.  Y Clerc i anfon y ffurflenni i Gyngor Gwynedd erbyn 25 Ionawr 2019.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Pawb wedi derbyn copi o'r cynlluniau diweddaraf.  Y Cyngor yn cefnogi'r cynllun ac yn unfrydol am symud ymlaen gyda'r maes parcio.  Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniadau ar gyfer helpu Meleri.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2019'
**10.1** E-bost gan Rheolwr Uned Cynllunio Cyngor Gwynedd-ymgynghoriad cyhoeddus, Canllawiau Cynllunio Atodol.  Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.
**10.2** E-bost gan Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Cyngor Gwynedd – Arolwg Strategaeth Ariannol- angen afon sylwadau erbyn 31 Ionawr 2019.  Penderfynwyd bydd pawb yn llenwi'r arolwg ar-lein.

**10.3** E-bost gan Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach, Cwmni Hamdden Gwynedd-Bwletin. Penderfynwyd ysgrifennu at y Rheolwr i holi beth yw dyfodol y cae bob tywydd ym Mhlas Ffrancon.
**10.4** E-bost gan History Points- hanes Bethesda ar ffôn symudol. Cais i osod codau QR i dderbyn hanes Llys Dafydd, ac hefyd yn chwilio am fanylion cyswllt am leoliadau sy'n gysylltiedig â Caradog Pritchard. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i osod côd ar un o bostiau Llys Dafydd. Penderfynwyd hefyd i anfon rhodd o £50 tuag at costau'r prosiect.
**10.5** E-bost gan Cyngor Gwynedd – Adolygiad Cludiant. Penderfynwyd rhoi'r wybodaeth yn Llais Ogwan ac ar dudalen 'Facebook' Ogwen.
**10.6** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw-bin halen gwyrdd yn Maes y Garnedd angen sylw. Y Clerc i holi'r Cyng. Dafydd Meurig am y cynllun Eryrod Eira.
**10.7** E-bost gan Llwybr Llechi Eryri ynglŷn a gosod tryc chwarel yn Llys Dafydd. Y Clerc i holi am fwy o wybodaeth.
**10.8** Project Pum Mil – y Clerc i holi am fwy o wybodaeth. Y Cyngor yn awyddus gwneud taflen ar Bethesda, i godi proffil y pentref.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C18/0999/13/LL**

| | |
|---|---|
| 11 Rhes Ogwen, Bethesda | Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd llawr gwaelod eiddo o siop (A1) i annedd (C3)<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**NP3/21/9C**

| | |
|---|---|
| 8 Ciltwllan, Gerlan, Bethesda | Tynnu dormer blaen presennol ac estyniad dormer cefn a dymchwel estyniad ochr, codi dormer newydd i'r edrychiad de, codi estyniad unllawr i'r ochr a chodi garej.<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei dynnu'n ôl |

**C18/1063/13/LL**

| | |
|---|---|
| 7 Ffordd y Mynydd, Rachub | Estyniad yn y cefn ar ffurf ffenestr dormer<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**C18/1057/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tŷ Dŵr Bach, Gerlan | Newid defnydd adeilad gwaith trin Dŵr Cymru gwag yn fwthyn gwyliau<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C18/1023/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tyddyn Caseg, Bethesda | Estyniad cefn<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C18/1178/13/LL**

| | |
|---|---|
| Llangoed, Nant Graen, Braichmelyn | Dymchwel y lolfa bresennol a chodi estyniad newydd yn ei le<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**RMJ/AE0246**

| | |
|---|---|
| Bargain Booze Ltd, Stryd Fawr, Bethesda | Hysbysiad o gais Deddf Trwyddedu 2013<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ionawr) | £311.50 |
| CThEM (Ionawr) | £77.80 |
| Londis-papurau (Rhagfyr) | £27.55 |
| Dŵr Cymru - Gorffwysfan | £314.94 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen-Swyddog Hybu Rygbi | £500.00 |
| Llais Ogwan-hysbyseb Rhoddion | £18.00 |
| Llais Ogwan-hysbyseb Ffenestr Nadolig | £39.00 |
| Snowdonia Fire Protection-Gorffwysfan | £27.72 |
| Dŵr Cymru-Llys Dafydd | £33.24 |
| Scottish Power -golau Nadolig | £79.09 |
| Scottish Power- golau Nadolig | £29.65 |
| Cyngor Gwynedd-gosod goleuadau | £2703.42 |
| EOG-ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |